Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Iau, 15 Medi 2016

10.30 - 11.55

Swyddfa'r Coleg, Caerdydd a thrwy fideo gynhadledd

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Andrew Green (Cadeirydd) Fflur Elin, Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr Yr Athro Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Jerry Hunter, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol Gwilym Dyfri Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch (rhwydwaith) Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli staff academaidd / Deon y Coleg Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Ieuan Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol (Is-Gadeirydd)
Sylwedyddion:	Ifan James, Swyddog Iaith Gymraeg, Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCMC) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Catherine Rees, Ysgrifennydd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu
Ymddiheuriadau:	Dr Gwyn Lewis, Cyfarwyddwr Annibynnol Yr Athro Iwan Davies, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd ac yn arbennig i Fflur Elin i'w chyfarfod cyntaf fel Cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr ac Ifan James, Swyddog Iaith Gymraeg, UCMC, i'w gyfarfod cyntaf fel sylwedydd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd Andrew Green ddiddordeb yn yr eitem penodi Cadeirydd ac argymhellion ynghylch cynnig cydnabyddiaeth ariannol i'r Cadeirydd.		
3. Gohebiaeth	3.1 Derbyniwyd llythyr ar y bwrdd gan Alun Cairns, Ysgrifennydd Gwladol Cymru. 3.2 Nodwyd bod y llythyr yn ymhelaethu ar drafodaeth ynghylch y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. 3.3 Cytunwyd i gylchredeg y llythyr i'r aelodau nad oedd yn bresennol yng Nghaerdydd.	NB i bostio'r llythyr	15 Medi 2016
4. Materion y Cadeirydd	4.1 Derbyniwyd adroddiad llafar gan y Cadeirydd. Nododd mai'r bwriad gwreiddiol oedd cynnal cyfarfod 'dros nos' ar 14 ac 15 Medi er mwyn ystyried datblygiadau yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Adolygiad Diamond a hefyd unrhyw ddatblygiadau perthnasol o		

	ran sefyllfa cyllido'r Coleg. Gan na chyhoeddir Adroddiad Diamond tan yn ddiweddarach yn y mis a bod trafodaethau cyllidol yn parhau, penderfynwyd nad oedd yn amserol i gynnal cyfarfod hir. 4.2 Nododd y Prif Weithredwr y bu cyhoeddiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg yn ystod yr Eisteddfod yn datgan y bydd grŵp yn cael ei sefydlu i adolygu cyfrifoldebau'r Coleg. Fodd bynnag nid yw aelodaeth y grŵp wedi ei gadarnhau ac nid oes manylion llawn am yr amserlen a'r broses.		
5. Pwyllgor Penodiadau **(Eitemau 5a/5b/5c)**	*Ar y pwynt hwn ymunodd Meirion Prys Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, â'r cyfarfod.* 5.1 Gan nodi bod Andrew Green wedi datgan budd yn y mater, cytunodd y Cyfarwyddwyr y dylai aros yn bresennol yn y rhan hwn o'r cyfarfod gan na fyddai'n ymgeisio am dymor pellach a byddai ei gyfraniad ynghylch ei brofiad personol fel Cadeirydd o fudd i'r drafodaeth. 5.2 Cyflwynodd Meirion Prys Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, argymhellion ynghylch penodi Cadeirydd newydd ac argymhellion cynnig cydnabyddiaeth ariannol i'r Cadeirydd. Diolchwyd iddo am ei gyflwyniad. 5.3 Cafwyd trafodaeth ar yr argymhellion ynghylch penodi Cadeirydd a chymeradwywyd y ddogfen swydd ddisgrifiad gyda man addasiadau. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd yn cylchredeg y ddogfen ddiwygiedig. 5.4 Trafodwyd yr argymhelliad o gynnig cydnabyddiaeth ariannol i'r Cadeirydd a chytunwyd o blaid talu honorariwm hyd at £7,500. Cafwyd 7 pleidlais o blaid, 1 yn erbyn ac 1 yn ymatal. 5.5 Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a	CR i ddiwygio'r swydd ddisgrifiad a'i gylchredeg at y BC	Medi 2016

	gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2016.		
6. Materion Staffio	6.1 Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifennydd ar faterion staffio. Adroddwyd bod Rhys Williams, Rheolwr Systemau a Thechnoleg, a Suzanne Lewis, Uwch Swyddog Gweinyddiaeth, wedi dechrau yn eu swyddi. Penderfynwyd peidio â phenodi yn sgil ymadawiad y Prif Diwtor Iaith oherwydd newidiadau yn sgil sefydlu trefniadau achredu'r Dystysgrif Sgiliau Iaith gyda CBAC. 6.2 Mewn ymateb i gonsyrn a nodwyd gan aelodau o'r Bwrdd ynghylch pwysau gwaith y staff nodwyd bod y Pwyllgor Staffio yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2016 wedi penderfynu peidio parhau â'r polisi o rewi swyddi a ddeuai'n wag.		
7. Tystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon	7.1 Nodwyd, er gwybodaeth, ddogfennaeth ynghylch y Dystysgrif Cymhwysedd Iaith i Athrawon a gylchredwyd cyn y cyfarfod gan y Prif Weithredwr. 7.2 Adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi darparu grant ychwanegol i'r Coleg o £37,000 er mwyn gweithredu'r cynllun eto eleni. Mae'r gyllideb a nodwyd ar gyfer y cynllun eleni yn cyfateb i swm uwch na'r hyn a ddarparwyd ac, er y byddai rhai elfennau yn cael eu hepgor er mwyn lleihau costau mae'n bosibl y bydd angen i'r Coleg ddarparu swm ychwanegol o oddeutu £10,000 er mwyn gweithredu'r cynllun yn ystyrlon. Cytunwyd i wneud hyn ac i dynnu'r cyllid o incwm nad yw'n rhan o'r prif grant gan y Cyngor Cyllido. 7.3 Croesawyd y cynllun ac awgrymwyd gan aelod o'r Bwrdd y dylid ehangu'r cynllun i gynnwys addysg bellach. Nodwyd bod hynny wedi ei godi gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ond bod y Dystysgrif, gan adlewyrchu;'r gyllideb, wedi ei chyfyngu i fyfyrwyr TAR Cynradd ac Uwchradd ar hyn o bryd. Bydd trafodaethau ar ehangu'r Dystysgrif yn y dyfodol yn digwydd yn ystod y flwyddyn..		

8. Cynllun Gweithredu 2016/17	8.1 Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu'r Coleg ar gyfer 2016/17 gan y Prif Weithredwr, er gwybodaeth. Nid oedd unrhyw gwestiynau gan yr aelodau.		
9. Unrhyw fusnes arall	9.1 Cyfeiriwyd at y gyfres deledu 'Doctoriaid Yfory', sy'n dilyn hyfforddeion iechyd Prifysgol Caerdydd, ac sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.		
10. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	10.1 Nodwyd cyfarfodydd y Bwrdd yn y flwyddyn academaidd 2016/17 fel a ganlyn: • 23 Tachwedd 2016, Bangor • Cyfarfod y Llys, 8 Mawrth 2017, Abertawe • 22 Mawrth 2017, Abertawe • 21 Mehefin 2017, Prifysgol Agored 20.2 Diolchwyd i'r cyfieithydd ar y pryd am ei waith.		